Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Meithrin gallu i gydweithio yn y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru.

Adroddiad, Gorffennaf 2021

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

Hwyluso, cyngor arbenigol a gwerthuso

Tabl Cynnwys

1. Crynodeb ***3***

2. Cefndir ***4***

3. Amcanion y prosiect ***4***

4. Methodoleg ***5***

Cam 1: Y cam ymgynghori 6

Cam 2: Gweithdai wedi'u hwyluso a datblygu cysyniadau 7

Cam 3: Datblygu Datganiadau o Ddiddordeb 7

5. Ymatebwyr a chyfranogwyr ***8***

Y Sefydliad a Gynrychiolir **8**

Ymatebwyr **8**

6. Canfyddiadau cwestiynau ymchwil allweddol ***9***

a. Profiad o weithio ar brosiectau cydweithredol **9**

b. Cymhellion dros gydweithio **11**

c. Adnoddau i chwarae rhan effeithiol mewn ceisiadau cydweithredol **12**

d. Adnoddau i ddatblygu prosiectau cydweithredol **13**

e. Rhwystrau i gydweithio – meysydd i'w cefnogi **14**

f. Blaenoriaethau yn y dyfodol **15**

7. Gweithdai ***16***

a. Rhaglen **16**

Grŵp 1 **16**

Grŵp 2 **16**

b. Prif gysyniadau **17**

Y Warchodfa Natur Genedlaethol **17**

Ar Dir Cyffredin **18**

Ffermio a Physgota dros Natur **18**

8. Casgliadau ac argymhellion ***18***

1. Crynodeb

Comisiynwyd y prosiect dwys hwn rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2021 fel rhan o brosiect meithrin gallu ehangach i aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru ynghanol pandemig COVID-19. Ariannwyd y prosiect drwy garedigrwydd Llywodraeth Cymru, drwy grant a weinyddwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Roedd ymchwil flaenorol wedi awgrymu bod potensial ar gyfer mwy o gydweithio strategol tymor hwy yn y sector amgylcheddol yng Nghymru. Ystyrir bod cydweithio yn ffordd o gynyddu effeithiau a gwella cydnerthedd y sector. Bydd y sefydlogrwydd hwn yn hollbwysig ar adeg pan fydd sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol cryf yn hanfodol i greu adferiad gwyrdd a mynd i'r afael â'r Argyfwng Natur.

Prif amcanion y prosiect hwn oedd:

- Ysgogi ac annog cydweithio rhwng aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Creu o leiaf dri chysyniad ar gyfer prosiectau cydweithredol y gellid eu datblygu ymhellach
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru o ddulliau a ddefnyddir i greu a datblygu prosiectau mawr sy'n cael effaith sylweddol.

Comisiynwyd y Funding Centre, sy'n wasanaeth ymgynghori trydydd sector a leolir yng Nghaerdydd, i roi cyngor arbenigol a hwyluso a gwerthuso'r prosiect yn ei gyfanrwydd.

Mae'r amserlenni cywasgedig yr oedd eu hangen i gyflawni'r prosiect hwn wedi creu heriau penodol, yn enwedig ar adeg pan fo'r sector o dan gymaint o bwysau gweithredol ac ariannol. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae cyfranogiad yn y prosiect wedi bod yn frwdfrydig ac yn gadarnhaol er ein bod wedi wynebu heriau logistaidd wrth ddod â chyfranogwyr at ei gilydd.

Ar ôl cyfnod o waith ymgynghori a meincnodi er mwyn nodi anghenion, adnoddau a gallu'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y prosiect hwn, cynhaliwyd cyfres o weithdai. Bwriadwyd iddynt feithrin dealltwriaeth o'r prosesau sy'n gysylltiedig â chreu consortiwm a datblygu cysyniadau cychwynnol y gellid eu datblygu drwy gydol y flwyddyn.

Lluniwyd tri chysyniad posibl â theitlau gwaith, sef:

> **Ar dir cyffredin** – rhaglen o weithgareddau sy'n gweithio gyda chymunedau difreintiedig i ddatblygu cysylltiadau â Natur yn yr ardaloedd lle maent yn byw.
>
> **Ffermio a Physgota dros Natur** – rhaglen genedlaethol fawr ei heffaith, uchelgeisiol, i newid y ffordd rydym yn defnyddio ein tir ffermio a'n hadnoddau dyfrol.

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol – gan adeiladu ar yr egni a'n galluogodd i greu'r Goedwig Genedlaethol er mwyn sicrhau ein bod yn creu coedwigoedd a chynefinoedd eraill sydd mor fuddiol i natur ag ydynt i bobl.

.

2. Cefndir

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn rhwydwaith o sefydliadau amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth sy'n gweithio yng Nghymru ac mae'n cysylltu gwaith y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol â Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a'r Senedd. Ein gweledigaeth yw amgylchedd Cymreig ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn helpu ei aelodau i gydweithio, ar bolisi ac eiriolaeth amgylcheddol yn bennaf, gan feithrin ymddiriedaeth ac arbenigedd yn y rhwydwaith.

Ym mis Ebrill 2019, datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd ac[1], ers hynny, mae wedi cydnabod yr argyfwng natur cydgysylltiedig, fel y nodir yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020[2]. Ym mis Mehefin 2021, aeth Llywodraeth Cymru gam ymhellach a datgan Argyfwng Natur[3]. Mae gwaith rhwydwaith Cyswllt Amgylchedd Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen eang o weithgareddau y bwriedir iddynt helpu i baratoi aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru i fod yn fwy effeithiol o ran helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yng Nghymru. Cynhaliwyd y rhaglen dros gyfnod o bedwar mis rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2021 ac roedd yn cynnwys hyfforddiant ac ymchwil i ddulliau cyllido arloesol yn ogystal â'r prosiect hwn sy'n canolbwyntio ar weithio fel consortiwm. Fe'i comisiynwyd gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru a weinyddwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Comisiynwyd y Funding Centre i gyflawni'r cam hwn o'r prosiect drwy werthuso anghenion y sector, rhoi cyngor ar gyd-greu prosiectau a hwyluso nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd bach.

3. Amcanion y prosiect

Bydd maint a natur frys yr Argyfwng Natur yng Nghymru yn gofyn am ymateb cydgysylltiedig ar raddfa fawr gan bob rhan o gymdeithas er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng yn effeithiol. Mae maint cymharol fach llawer o'r sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru gyda'r nod o gefnogi natur yn golygu y bydd angen iddynt gydweithio â'i gilydd.

[1] https://llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd

[2] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/sonarr2020-introduction/?lang=cy

[3] https://www.endsreport.com/article/1721069/a-landmark-moment-welsh-parliament-declares-nature-emergency

Comisiynwyd adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddiwedd 2020 er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r ffordd orau o helpu cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru i gyfrannu at Adferiad Gwyrdd ar ôl Argyfwng Covid-19[4]. Mae'r adroddiad hwn wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol a chyfredol am y ddynamig sy'n effeithio ar ymddygiad cydweithredol rhwng cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru.

Dangosodd yr ymchwil fod canfyddiad bod cyrff anllywodraethol amgylcheddol sy'n gweithredu yng Nghymru yn llai parod i gydweithio na chyrff mewn rhannau eraill o'r DU neu eu bod yn llai uchelgeisiol neu'n amharod i gydweithio i sicrhau cyllid. Mae'r realiti, yn anochel, yn fwy cymhleth. Yn ddiau, mae adnoddau cyfyngedig i fuddsoddi mewn datblygu prosiectau newydd ac agweddau ceidwadol at risg yn ffactorau rhwystrol i rai. Yn achos eraill, mae ymdeimlad bod cystadleuaeth yn fwy effeithiol na chydweithio pan ddaw'n fater o wneud cais am adnoddau cyfyngedig iawn.

Beth bynnag fo'r heriau penodol, gwyddom, er mwyn creu prosiectau cydweithredol mawr llwyddiannus, fod rhai rhagamodau yn hanfodol. Amgylchedd cyllido iach gyda buddsoddwyr craff yw'r cyntaf o'r rhain. Mae diwylliant o gydweithio, cydymddiriedaeth ac amcanion cyffredin hefyd yn elfennau canolog mewn sectorau llwyddiannus eraill, lle mae cydweithio ar raddfa fawr yn fwy cyffredin. Nid yw pob un o'r rhain yn nodweddion amlwg ar y dirwedd bresennol yng Nghymru.

Er ein bod yn sylweddoli bod creu pob un o'r rhagamodau hyn ymhell y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn, rydym hefyd yn deall y gall cydweithwyr posibl ddysgu'r prosesau allweddol sydd eu hangen er mwyn ffurfio partneriaethau hirdymor effeithiol.

Nod y prosiect hwn yw rhannu rhai o'r adnoddau a'r technegau sydd wedi datblygu dros amser a fydd yn helpu i feithrin yr ymddiriedaeth a'r dychymyg a datblygu'r strwythurau y bydd eu hangen i lunio cynigion deniadol a mawr eu heffaith.

Prif amcanion y prosiect yw:

- Ysgogi ac annog cydweithio rhwng aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Creu o leiaf dri chysyniad ar gyfer prosiectau cydweithredol y gellid eu datblygu ymhellach
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru o ddulliau a ddefnyddir i greu a datblygu prosiectau mawr sy'n cael effaith sylweddol.

4. Methodoleg

Wrth lunio'r dull hwn, gwnaethom geisio seilio ein dull gweithredu ar yr egwyddorion canlynol:

[4] https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/692604/final-green-recovery-engo-support-report-cymraeg.pdf

- Gwrando'n astud ar y cyfranogwyr, y mae llawer ohonynt yn rhwystredig ac wedi blino'n lân ar ôl blwyddyn anodd iawn. Nid oes ganddynt fawr ddim capasiti ar gyfer “rhagor o ddarlithio” ynglŷn â sut i wella. Ein dull gweithredu arfaethedig oedd bod yn sensitif ac yn gefnogol.

- Roeddem yn awyddus i ddeall beth yn union yw adnoddau a gallu'r sefydliad unigol a'i agwedd tuag at gydweithio ac ymchwilio i unrhyw rwystrau a all fod.

- Roedd angen i ni rannu'r atebion go iawn sydd wedi'u datblygu mewn sectorau eraill er mwyn llwyddo i ddatblygu prosiectau.

- Nid ydych yn gwybod yr hyn nad ydych yn ei wybod. Mae'n bwysig ysbrydoli cyfranogwyr drwy roi enghreifftiau o gydweithio llwyddiannus y gellir eu hatgynhyrchu yn ogystal â llenwi'r bylchau mewn gwybodaeth neu sgiliau a fydd yn eu helpu i lwyddo. Mae llawer o'r sefydliadau hyn yn cael eu harwain gan ymarferwyr medrus a phrofiadol iawn ac mae'n rhaid cysylltu â nhw mewn ffordd gadarnhaol a chydag uchelgais.

- Nid yw pob sefydliad yr un peth. Mae aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru mor amrywiol o ran maint, gallu, profiad ac effeithiolrwydd â'r sector gwirfoddol cyfan. Mae angen cysylltu â phob sefydliad yn unigol gyda dealltwriaeth glir o'i ddiwylliant a'i brofiad.

Cam 1: Y cam ymgynghori

Roeddem yn disgwyl cael ymateb cadarnhaol i'r cymorth a oedd yn cael ei gynnig drwy'r prosiect hwn Fodd bynnag, roedd yn hanfodol sicrhau cyfranogiad uwch-aelodau o staff o gyrff anllywodraethol mwy o faint sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn ogystal â staff datblygu, os oedd ganddynt staff o'r fath. Yn achos sefydliadau llai o faint gyda nifer bach iawn o staff neu heb fawr ddim amser, roedd angen i ni sicrhau bod ein hamser gyda nhw yn teimlo fel buddsoddiad amser da.

Ychydig iawn o amser yn y prosiect a oedd ar gael i ymgynghorwyr ei dreulio gyda chyfranogwr un i un. Felly, roedd yn rhaid ei dreulio'n effeithlon iawn er mwyn cael y gwerth mwyaf posibl o'r amser a fuddsoddwyd. Er mwyn bwrw ati'n ddiymdroi, gwnaethom lunio holiadur hunan-lenwi byr a oedd yn casglu gwybodaeth sylfaenol gan gyfranogwyr cyn i ni ymgysylltu â'n hymgynghorwyr, am eu sefydliad, eu hadnoddau, eu profiad ac ati. Llywiodd y wybodaeth hon alwad ddiagnostig gychwynnol gydag ymgynghorwr penodol er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn llawn y dull gweithredu gorau i'w fabwysiadu ar gyfer pob corff anllywodraethol amgylcheddol. Roedd y cam nesaf yn cynnwys cymysgedd o weithdai byr a sesiynau un i un gydag unigolion allweddol ynghyd â galwadau a sesiynau hyfforddi dilynol achlysurol.

Wedyn, gwnaeth ein dadansoddiad o'r adroddiadau diagnostig ac unrhyw adborth o'r sesiynau ymgynghori lywio'r gwaith o gynllunio gweithdai dilynol a helpu i ddechrau ffurfio

themâu clir ynghylch anghenion hyfforddiant a datblygu sgiliau y gellid eu cyflwyno drwy'r rhaglen hon neu raglenni eraill.

Gwnaethom hefyd ddefnyddio'r data a gasglwyd yn ystod y sesiynau ymgynghori i ddeall y meysydd tebygol lle y gallai sefydliadau gydweithio - p'un a yw'r meysydd yn rhai thematig neu sectoraidd. Gwnaeth y wybodaeth hon hefyd fwydo i mewn i'r gwaith o gynllunio sesiynau dilynol a'n helpu i ddiffinio'r rhaglen waith yn fwy cywir.

Ar ddiwedd yr elfen hon, cyflwynwyd y canfyddiadau a'r themâu a oedd yn dod i'r amlwg i fwrdd Cyswllt Amgylchedd Cymru er mwyn cael adborth ac ymateb yn ogystal â rhannu ein syniadau ynghylch cynllun y gweithdai dilynol.

Cam 2: Gweithdai wedi'u hwyluso a datblygu cysyniadau

Y cam hwn oedd elfen fwyaf cymhleth y prosiect. Nid oeddem am achub y blaen ar y gwaith a fydd yn cael ei wneud yn ystod y cam ymgynghori, ond gallem ragweld y byddai gan y cyfranogwyr brofiad a disgwyliadau eang iawn o sut beth fyddai prosiect cydweithredol llwyddiannus.

Ein nod oedd datblygu tair carfan er mwyn creu o leiaf un cynnig cryf gan bob un ohonynt. Fodd bynnag, oherwydd y galwadau ar amser y cyfranogwyr, dim ond gyda dwy garfan y gallem weithio ac wedyn gwnaethom ddatblygu cynigion pellach drwy sesiynau un i un. O'r cychwyn cyntaf, roeddem yn rhagweld y byddai pob carfan yn cynnwys rhwng pedwar a chwe sefydliad o wahanol feintiau mewn gwahanol leoliadau a oedd yn cynrychioli ystod mor eang o'r aelodau ag oedd yn ymarferol.

Arweiniwyd pob un o'r gweithdai gan ymgynghorydd ac fe'u cyflwynwyd drwy Zoom. Roedd y cyfranogwyr yn gyfforddus gyda'r fformat ac, ar y cyfan, roeddent yn gyfforddus gyda'r adnoddau rhyngweithiol, megis Jamboard. Yn ôl y disgwyl, roedd y rhan fwyaf o'r gweithdai yn cynnwys cymysgedd o ddatblygu sgiliau a hyfforddiant ynghyd ag elfennau mwy cyfranogol wrth i ni ddatblygu syniadau ar gyfer prosiectau gyda'n gilydd.

Cam 3: Datblygu Datganiadau o Ddiddordeb

Rydym yn llwyr ymwybodol o'r adnoddau cyfyngedig sydd gan y rhan fwyaf o sefydliadau a gymerodd ran yn y prosiect i lunio cynigion cydweithredol cymhleth ac uchelgeisiol. Mae cynnwys craidd y prosiectau rydym am fynd ag ef i'r cam datblygu wedi'i lunio gan y cyfranogwyr yn ystod y gweithdai. Gwnaethom weithredu fel hwylusydd a phrif olygydd y cynigion hyn er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y cyllidwyr a nodwyd. Bydd angen gwneud rhagor o waith i fireinio'r cynigion i'r pwynt lle y cânt eu cymeradwyo ac y cytunir arnynt gan y grwpiau sy'n cymryd rhan yn y prosiect.

Gwnaethom annog pob carfan i rannu'r gwaith o ddatblygu eu syniadau er mwyn iddynt allu dysgu oddi wrth ei gilydd, broceru cydberthnasau newydd ac annog mwy o gydweithio, ymhell y tu hwnt i'r prosiect hwn. Nodir canlyniadau'r gweithdai yn adran 7 isod.

5. Ymatebwyr a chyfranogwyr

Roedd gennym gyfanswm o tua 20 o gyfranogwr o 13 o sefydliadau. Fe'u dewiswyd o restr fer gychwynnol o aelodau â diddordeb o Cyswllt Amgylchedd Cymru, a luniwyd cyn y prosiect. Roedd yn anodd iawn llunio amserlen am fod y cyfranogwyr o dan bwysau amser sylweddol wrth iddynt barhau i ymgodymu â chanlyniadau'r pandemig ac, ar yr un pryd, gynnal busnes fel arfer neu gynllunio ar gyfer ailagor yn yr Haf. Mae rhai o'r cyfranogwyr hefyd yn cymryd rhan mewn prosiect cydweithredol mawr, sef Natur am Byth, a sicrhaodd ei gyllid datblygu yn gynharach yn y flwyddyn ac sydd wedi bod yn brysur yn dechrau datblygu'r gwaith hwnnw.

Y Sefydliad a Gynrychiolir	Ymatebwyr
Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod	Steve Lucas (Swyddog Cymru)
Buglife	Clare Dinham (Rheolwr Cymru)
Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn	Sinead Lynch (Rheolwr Cadwraeth)
Cadwch Gymru'n Daclus	Lesley Jones (Prif Swyddog Gweithredol)
Llais y Goedwig	Maria Wilding (Rheolwr Rhaglenni)
PONT	Julia Korn (Cyfarwyddwr)
Ramblers Cymru	Rebecca Brough (Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth)
RSPB	Michele Hunt (Pennaeth Cyllid)
Cymdeithas Eryri	John Harold (Cyfarwyddwr)
Ymddiriedolaethau Natur Cymru	Rachel Sharp (Prif Swyddog Gweithredol)
Coed Cadw	Natalie Buttriss (Cyfarwyddwr, Cymru) a Catriona Corfield (Pennaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant)
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol	Yr Arolwg Diagnostig yn unig

Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol	Yr Arolwg Diagnostig yn unig

6. Canfyddiadau cwestiynau ymchwil allweddol

Ar gyfer cam diagnostig cychwynnol y prosiect, roeddem yn ceisio nodi llinell sylfaen glir ar gyfer lefel y cydweithio yn y sector. Roeddem hefyd yn awyddus i gael darlun o allu ac adnoddau pob un o'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y prosiect a'u hagwedd tuag at gydweithio – gan geisio ateb y cwestiynau allweddol canlynol yn y bôn:

- Beth yw profiad pob sefydliad o weithio ar geisiadau cydweithredol?
- Beth yw'r prif gymhellion dros gydweithio?
- Faint o adnoddau sydd gan y sefydliadau sy'n rhan o'r prosiect i chwarae rhan effeithiol mewn ceisiadau cydweithredol?
- I ba raddau y gall sefydliadau sy'n rhan o'r prosiect chwarae rhan effeithiol mewn ceisiadau cydweithredol?
- Beth yw'r rhwystrau i gydweithio – pa feysydd sydd angen eu cefnogi?
- Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer cydweithio yn y dyfodol?

Daw'r canfyddiadau canlynol o gyfuniad o ganlyniadau arolwg hunan-lenwi ar-lein a chyfres o ymgyngoriadau a chyfweliadau manwl a gynhaliwyd yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2021.

a. Profiad o weithio ar brosiectau cydweithredol


Ar y cyfan, roedd agwedd gadarnhaol iawn tuag at y syniad o gydweithio a thystiolaeth glir o ymddygiad cydweithredol. Er enghraifft, mae pob un o'r cyfranogwyr wedi gweithio ar brosiectau dwyochrog a phrosiectau bach gyda chyrff anllywodraethol amgylcheddol eraill yn y sector - y mae llawer ohonynt yn aelodau o Cyswllt Amgylchedd Cymru neu'n gweithio mewn meysydd cysylltiedig.

Ymddengys fod cydweithio â phartneriaid wedi hen ennill ei blwyf yn y rhan fwyaf o'r sefydliadau y gwnaethom siarad â nhw ac roedd llawer ohonynt wedi arwain y gwaith o ddatblygu prosiectau neu baratoi cynigion cyllido llwyddiannus.


Dengys y ddwy siart isod fod gan bob un o'r cyfranogwyr o leiaf rywfaint o brofiad a bod y rhan fwyaf ohonynt yn ystyried bod ganddynt “lawer o brofiad” ac roedd bron hanner y

cyfranogwyr wedi arwain y gwaith o ddatblygu cynigion cyllido ar gyfer ceisiadau cydweithredol.

Tabl 1 – Ymatebion i'r arolwg ar-lein



Tabl 2 – Ymatebion i'r arolwg ar-lein



Yn ystod ein trafodaethau, roedd yn amlwg bod gan bob un ohonynt syniad da o'u gwerth a'u harbenigedd eu hunain mewn rôl gydweithredol a'u bod yn deall sut y gallent ategu'r prosiectau roeddent wedi cymryd rhan ynddynt neu ychwanegu at eu heffaith.

Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y prosiectau roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cymryd rhan ynddynt yn eithaf bach a bod eu heffeithiau posibl yn eithaf cyfyngedig a braidd yn ad hoc. Mewn geiriau eraill, nid oedd ganddynt fawr ddim profiad o bartneriaethau ar raddfa fawr ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi rhoi fawr ddim ystyriaeth i gydweithio na gweithio mewn partneriaeth yn yr hirdymor.


b. Cymhellion dros gydweithio

> "Gallai fod yn ffordd dda iawn o gael arian y Loteri"

Wrth ystyried y rhesymau pam roedd sefydliadau wedi ffurfio partneriaethau neu gydweithio'n flaenorol, roedd y cymhellion, ar y cyfan, mewn ymateb i gyfle byrdymor – h.y. roeddent yn adweithiol yn hytrach nag wedi'u cynllunio. Ymddengys fod y cyfleoedd hyn i weithio mewn partneriaeth yn cael eu hysgogi gan argaeledd cyllid ar gyfer prosiectau, naill ai fel un o ofynion y cyllidwr neu'r cyfle i chwarae rôl is-bartner neu arbenigwr mewn partneriaeth a oedd yn cael ei harwain gan bartner arall.

Mae'r ymatebion yn nhabl 3 yn enghraifft dda o'r ddynameg hon gyda'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn dweud bod darpar bartner wedi cysylltu â nhw yn hytrach nag fel arall.

Tabl 3 – Ymatebion i'r arolwg ar-lein



> "Dim ond prosiectau sy'n cyd-fynd â'n hamcanion ein hunain rydym yn ymgymryd â nhw"

Roedd y dull gweithredu adweithiol hwn yn amlwg iawn mewn sefydliadau llai o faint, yn enwedig y rhai nad oedd ganddynt fawr ddim adnoddau i godi arian na fawr ddim profiad o wneud hynny. Ymddengys fod dulliau gweithredu uniongyrchol gan bartneriaid yn ffordd o godi arian heb fawr ddim risg am fod prif faich rheoli'r broses gwneud cais yn cael ei ysgwyddo gan y prif bartner.

Er gwaethaf y dull gweithredu braidd yn oportiwnistaidd hwn, roedd dealltwriaeth glir bod yn rhaid i bartneriaeth gyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol. Fodd bynnag, nid oedd y syniad craidd o ddefnyddio gweithgarwch ffurfio partneriaeth fel ffordd o gyflawni nodau strategol yn ei rinwedd ei hun yn ystyriaeth i unrhyw sefydliad heblaw'r rhai mwyaf.

c. Adnoddau i chwarae rhan effeithiol mewn ceisiadau cydweithredol


Drwy gydol ein gwaith gyda'r cyfranogwyr, mae'n amlwg bod natur gystadleuol a chymhlethdod yr amgylchedd cyllido yn peri rhwystredigaeth, gyda darlun clir iawn o leihad hirdymor mewn adnoddau ar gyfer y rhan fwyaf. Pan bwyswyd arnynt i ymateb, nodwyd mai'r diffyg adnoddau hwn yw'r broblem fwyaf sy'n effeithio ar eu gallu i greu cydweithrediadau ar raddfa fawr.

Mae tystiolaeth gref i ategu'r canfyddiad hwn. Mae llawer o'r sefydliadau yn fach iawn a dim ond nifer bach o staff prosiect sydd ganddynt yng Nghymru. Mae gan eraill adnoddau sylweddol yng Nghymru neu gallant ddefnyddio adnoddau yn Lloegr/y DU. Rhoddodd hyd yn oed y sefydliadau mwy o faint ddarlun o gyfyngiadau ariannol, nifer gostyngol o staff a llwyth gwaith cynyddol dros y degawd diwethaf. Mae Argyfwng Covid-19 wedi gwneud y sefyllfa hon yn waeth fyth ac wedi cyflwyno mwy o ansicrwydd.

Disgrifiodd y cyfranogwyr yr her benodol sy'n gysylltiedig â darparu adnoddau i ddatblygu prosiectau yn ystod eu camau cynnar. Ymddengys nad oes fawr ddim adnoddau yng Nghymru i weithio ar ddatblygu prosiectau a bod pryder dealladwy ynghylch neilltuo amser gwerthfawr i ddatblygu prosiectau codi arian hapfasnachol i sefydliadau eraill pan fyddant yn pryderu cymaint ynghylch cyllido eu gwaith craidd eu hunain.

Pan gawsant eu holi ynghylch yr adnoddau a oedd ganddynt i gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol, roedd gan y mwyafrif rai adnoddau neu hyd yn oed gryn dipyn o adnoddau i gyfranogi, a oedd yn adlewyrchu eu parodrwydd i gymryd rhan ond yn tanlinellu'r cyfyngiadau a oedd arnynt o ran sefydlu prosiectau partneriaeth.

Tabl 4 – Ymatebion i'r arolwg ar-lein



Ar y cyfan, mae'r rhai sydd wedi gallu buddsoddi yng Nghymru dros flynyddoedd lawer ac ymgysylltu ar lefel polisi wedi cael mwy o lwyddiant o ran meithrin gallu yn gyffredinol. Gallwn dybio bod yr agosrwydd hwn at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau hefyd wedi meithrin cyd-ddealltwriaeth ac wedi arwain at gyfleoedd cyllido gwell.

d. Adnoddau i ddatblygu prosiectau cydweithredol

Mae llawer o sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru wedi datblygu fel canghennau i sefydliadau sy'n cwmpasu'r DU gyfan neu maent wedi datblygu o brosiectau a leolir yma ond a reolir yn Lloegr. Prin yw'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol cynhenid Cymreig ac, fel y nodwyd uchod, maent yn dueddol o fod yn fach.

Ar y cyfan, mabwysiedir dull 'o'r llaw i'r genau' o godi arian gyda llawer o staff yn cael eu hariannu ar sail prosiect. Mae'n bosibl bod hyn yn rhannol, yn llywio'r dull adweithiol iawn o gydweithio yn hytrach na chael ei gynllunio'n benodol neu'n fwriadol fel rhan o'r broses o ddatblygu rhwydweithiau.

Mae sgiliau cynllunio a datblygu prosiect sylfaenol yn dameidiog am fod yn rhaid i staff prosiect fod yn arbenigwyr yn eu maes yn ogystal â gorfod ymgymryd yn aml â'r gwaith eithaf beichus o weinyddu grantiau a thasgau eraill sydd wrthi'n cael eu cyflawni. Prin iawn oedd y dystiolaeth bod gan unrhyw un o'r cyfranogwyr ddealltwriaeth ffurfiol o sut i greu consortiwm neu ddatblygu prosiect mawr, heblaw'r rheini o'r sefydliadau mwyaf.

Ar y llaw arall, ymddengys fod staff yn meddu ar sgiliau ysgrifennu ceisiadau da, sydd i'w priodoli, o bosibl, i gyrhaeddiad academaidd uchel iawn y rhan fwyaf o'r bobl sy'n gweithio yn y sector. Mae'r mathau o geisiadau sy'n cael eu llunio yn aml yn gymhleth ac yn anodd iawn i'w cwblhau'n dda. Byddai hyn yn awgrymu bod cryn botensial yn y sector i drosglwyddo'r sgiliau hyn i fathau eraill o weithgarwch codi arian neu, o leiaf, i'w defnyddio i ymchwilio i ffyrdd o gysylltu ag amrywiaeth ehangach o gyllidwyr.

Gyda rhai eithriadau amlwg, ar y cyfan, nid oes gan sefydliadau ddigon o wybodaeth (na chymhelliant) i ddeall mathau ehangach o weithgarwch codi arian ar wahân i'r ffynonellau arferol, sef Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a nifer bach o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau mwy o faint.


Mae gwahaniaeth gwirioneddol mewn gallu strategol mewn Cyd-destun Cymreig – mae gan rai maniffestos/strategaethau i Gymru a gwybodaeth helaeth am y cyd-destun polisi, tra bod eraill yn cael eu rheoli o bencadlysoedd y DU heb fawr ddim buddsoddiad yn y swyddfa/staff yng Nghymru. Fel arfer, dim ond sefydliadau mwy o faint neu'r rhai sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru sy'n meddu ar allu o'r fath.

Yn debyg i rannu eraill o'r sector gwirfoddol, megis y celfyddydau ac addysg, mae p'un a oes angen cyflwyno'r achos dros gymorth ariannol ai peidio yn achosi ychydig o ddryswch am eu bod yn tybio, yn ddealladwy ddigon, y bydd eu hangen bob amser. Er bod hyn bron yn sicr yn wir, mae angen i rai sefydliadau ystyried yn fanylach sut y gallant gyflwyno achos cryfach dros gefnogi eu gwaith a'i wneud yn ddeniadol i amrywiaeth ehangach o gyllidwyr a rhoddwyr.

O ran rhwydweithiau, ceir rhai partneriaethau cryf a chysylltiadau sy'n bodoli eisoes â'r canlynol:

- Tirfeddianwyr yn y sector cyhoeddus/trydydd sector
- Ffermwyr
- Sgyrsiau/gwersi a ddysgwyd o'r dysgu o'r "brif swyddfa" neu o'r Alban a Lloegr
- Prifysgolion ar lefel isel gydag academyddion unigol
- Cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn y sector yng Nghymru, ond sy'n aml yn ddwyochrog
- Set graidd o gyllidwyr – CNC, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Ymddiriedolaethau

*Tabl SEQ Table * ARABIC 5 Dengys yr adran werdd lle mae gan y sector gysylltiadau cryf a dengys yr adrannau glas ble maent ar eu gwannaf*



e. Rhwystrau i gydweithio – meysydd i'w cefnogi

Mae'n anochel bod y rhwystrau i gydweithio yn gymhleth ac yn amlhaenog. Mae ymwybyddiaeth iach iawn o'r heriau y mae'r sefydliadau hyn yn eu hwynebu ac adlewyrchir hyn yn glir yn yr holiadur hunan-lenwi yn ogystal â'r ymatebion mwy ansoddol a roddwyd yn ystod cyfweliadau.

"Hoffem gydweithio mwy, ond rydym yn rhy brysur yn delio ag anghenion byrdymor."


Y ffactor pwysicaf a nodwyd yw adnoddau – adnoddau i ddatblygu yn benodol. Soniwyd cryn dipyn am ddiffyg cyllid craidd yn ystod ein trafodaethau

ynghyd â'r rhwystredigaeth barhaus ynglŷn â'r costau sylweddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch codi arian ei hun.

Cyfeiriwyd at rwydweithiau cyfyngedig y tu hwnt i'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol fel ffactor rhwystrol.

- Dim strategaeth gyllido wirioneddol ar gyfer llawer o sefydliadau
- Ddim yn gwybod beth sy'n digwydd yng Nghaerdydd ar gyfer rhai o'r sefydliadau llai o faint
- Ymchwil a dangos tystiolaeth o'r effaith - mae rhai yn ei chael hi'n anodd delio â hyn tra bod eraill yn effeithiol iawn, er enghraifft, mae gan Coed Cadw dîm ymchwil a thystiolaeth, er ei bod yn canolbwyntio gryn dipyn ar gyd-destun y DU heb fawr ddim amser i ddarparu cymorth yng Nghymru
- Rhywfaint o dystiolaeth o amharodrwydd i gydweithio am eu bod yn cystadlu â'i gilydd

Yn eich barn chi, beth yw'r prif rwystrau i gydweithio'n effeithiol ar gyfer eich sefydliad:
13 o ymatebion



f. Blaenoriaethau yn y dyfodol

Yn ystod ein sgyrsiau, nodwyd rhai themâu cyffredinol roeddem yn bwriadu adeiladu arnynt yn y gweithdai.

- Roedd llawer o gyffro ynghylch y penderfyniad i benodi Gweinidog Newid Hinsawdd a'r datganiadau lefel uchel sy'n cael eu gwneud gan y Senedd bresennol yn gyffredinol. Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud er mwyn lobïo dros ddatganiad Argyfwng Natur yn ffurfiol ac mae brwdfrydedd dros adeiladu ar y ffaith bod mwy o gydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i'r mater hwn

- Trafodaeth gyffredinol ynghylch yr economi gylchol a sut y gallai cyrff anllywodraethol amgylcheddol chwarae eu rhan i ddatblygu'r syniad hwn

- Cafodd y newidiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19 a'r ymdrech i sicrhau adferiad (economaidd) gwyrdd eu crybwyll gan lawer

- Ystyriwyd bod cysylltiadau â pholisïau ehangach y Llywodraeth, yn enwedig yr agenda Iechyd a Diogelwch, yn rhywbeth y gallai'r sector eu cefnogi

- Y cysyniad o gynnwys mwy o bobl ac amrywiaeth ehangach o bobl ym maes cadwraeth yn ogystal â mabwysiadau dull mwy strwythuredig o Newid Ymddygiad

- Creu cysylltiadau cliriach rhwng tir, cynefin ac effaith pobl yn ogystal â chysylltiadau penodol â thai, cynllunio a chynefin

7. Gweithdai

a. Rhaglen

Cynhaliwyd pedwar gweithdy ym mis Gorffennaf 2021 gyda dwy garfan o 4-6 sefydliad ym mhob un.

Grŵp 1

Gweithdy 1: Dydd Mercher 7 Gorffennaf 2021, 3pm – 5pm
Gweithdy 2: Dydd Mercher 14 Gorffennaf 2021, 10am – 12pm

Lesley Jones	Cadwch Gymru'n Daclus
Angela Charlton	Ramblers Cymru
Rebecca Brough	Ramblers Cymru
Michele Hunt a Neil Lambert	RSPB
John Harold	Cymdeithas Eryri

Grŵp 2

Gweithdy 1: Dydd Llun 12 Gorffennaf 2021, 1pm – 3pm
Gweithdy 2: Dydd Iau 22 Gorffennaf 2021, 10am – 12pm

Carol Williams	Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod
Sinead Lynch	Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn

Maria Wilding	Llais y Goedwig
Mel Welch	Coed Cadw
Clare Dinham	Buglife
Rachel Sharp	Ymddiriedolaethau Natur Cymru (ar gyfer gweithdy 2)

Gweithdy 1 – Ailfywiogi prosiectau cydweithredol ym mhob rhan o'r sector amgylcheddol yng Nghymru

Hyd y sesiwn: 2 awr

Amcanion:

- Meithrin hyder i sefydlu prosiectau cydweithredol mawr ym mhob rhan o'r sector amgylcheddol yng Nghymru
- Cyflwyno canfyddiadau'r arolwg gan aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Nodi camau allweddol y broses ar gyfer ffurfio partneriaethau
- Nodi meysydd prosiect yn seiliedig ar y themâu a nodwyd yn yr ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 (i'w datblygu'n nodiadau cysyniad yn ddiweddarach)

Gweithdy 2 – Datblygu cysyniadau ar gyfer prosiectau cydweithredol ym mhob rhan o'r sector amgylcheddol yng Nghymru

Hyd y sesiwn: 2 awr

Amcanion:

- Diwygio'r broses o ddatblygu prosiectau
- Llunio cysyniadau amlinellol ar gyfer cydweithio ar raddfa fawr i'w datblygu drwy gydol y flwyddyn

b. Prif gysyniadau

Datblygwyd y tri chysyniad canlynol yn Ddatganiad drafft o Ddiddordeb sy'n dilyn fformat safonol ar gyfer cyllidwyr sefydliadol mawr megis cyrff y loteri neu gyrff rhyngwladol megis yr UE neu'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r grwpiau wedi cytuno i ddod ynghyd yn ddiweddarach yn 2021 er mwyn parhau i ddatblygu'r cysyniadau a ffurfio'r partneriaethau gyda'r bwriad o wneud ceisiadau ffurfiol am gyllid.

Y Warchodfa Natur Genedlaethol

Mae creu coedwig genedlaethol i Gymru yn achos dathlu ac yn alwad i weithredu i Gymru gyfan. Rhaid canmol a chefnogi'r rhesymeg dros greu systemau storio carbon naturiol, yn

ogystal â swyddi yn yr economi werdd newydd ar yr un pryd. Fodd bynnag, ar gyfer natur, rhaid i'r “brifforddd planhigion” newydd hon gynnwys amrywiaeth o blanhigion a all ei gwneud yn bosibl i amrywiaeth o rywogaethau Cymreig ffynnu a chael eu cymysgu â chynefinoedd eraill sydd yr un mor bwysig i natur, megis dolydd, glaswelltir a chynefinoedd gwyllt eraill.

Bydd y prosiect hwn yn ceisio adeiladu ar y consensws ar gyfer rhagor o goed a rhagor o ffyrdd o greu systemau naturiol i ddal carbon. Bydd yn darparu mosäig cyfoethog o gynefinoedd ar dir ac yn yr amgylchedd morol i sicrhau y caiff amgylchedd amrywiol ei greu er mwyn i natur a phobl allu ffynnu gyda'i gilydd.

Ar Dir Cyffredin

Mae'r prosiect hwn yn cydnabod, i lawer o bobl, nad yw'r amgylchedd naturiol yn amlwg berthnasol i'w bywydau bob dydd. Er mwyn i ni fynd i'r afael â'r argyfwng ym myd natur, mae'n hanfodol bod mwy o bobl yn deall y problemau rydym yn eu hwynebu ac yn deall sut y gall eu hymddygiadau gael effaith gadarnhaol a negyddol ar natur. Nod Ar Dir Cyffredin yw sicrhau bod cynulleidfa ehangach o lawer yn ymgysylltu ag amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar natur.

Bydd y prosiect hwn yn ceisio gweithio gyda chymunedau ledled Cymru i lunio prosiectau ar y cyd a fydd yn ennyn diddordeb pobl mewn natur yn eu hardal leol. Bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar gymunedau nad ydynt yn ymwneud fel arfer â chadwraeth – y rhai mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi, er enghraifft, neu leoedd â lefelau uwch o amddifadedd neu lefelau is o gyrhaeddiad addysgol

Ffermio a Physgota dros Natur

Ni allwn ddatrys yr Argyfwng Natur heb ystyried y ffordd rydym yn defnyddio ein tir ffermio a'n dyfroedd. Ffermwyr a physgotwyr yw gwarcheidwaid ein tir a'n moroedd, i bob pwrpas, a'u hymddygiadau a'u harferion nhw fydd yn penderfynu ar ffawd hirdymor Natur yng Nghymru.

Bydd y prosiect hwn yn ceisio gweithio gyda'r diwydiannau ffermio a physgota, yn ogystal â llunwyr polisi a'r cyhoedd, er mwyn llunio glasbrint ar gyfer ffordd newydd o weithio a byw a fydd yn galluogi natur, a'n cymunedau, i oroesi a ffynnu.

8. Casgliadau ac argymhellion

Mae'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn fregus ac mae angen cymorth ac anogaeth barhaus arno yn ogystal ag adnoddau er mwyn iddo fod mor effeithiol â phosibl. Mae'n amlwg y gallai cydweithio ar raddfa fawr gynyddu effaith gyffredinol y sector ac, yn ei dro, gallai ddod ag adnoddau ychwanegol a mwy o sefydlogrwydd ariannol i sefydliadau llai o faint yn benodol.

Mae'n amlwg i'r prosiect hwn gael ei groesawu gan y cyfranogwyr ac, er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag adnoddau ac amser prin y mae llawer yn eu hwynebu, mae'n amlwg bod y potensial i gydweithio yn cael ei werthfawrogi.

Yn anffodus, cyfyngodd yr amserlen fer iawn y bu'n rhaid cyflawni'r prosiect yn unol â hi a'r pwysau sylweddol sydd ar staff ar effaith gyffredinol y prosiect. Mae cyfyngiadau ffisegol cyfarfod dros Zoom wedi bod yn fendith gymysg gyda'r cyfranogwyr yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bob rhan o Gymru ond heb fawr ddim amser i feithrin cydberthnasau sy'n digwydd yn fwy effeithiol mewn cyfarfod yn y cnawd.

Er bod gwaith i'w wneud o hyd ar gysyniadau'r prosiect, mae'n amlwg bod brwdfrydedd dros barhau i adeiladu ar y prosiect. Mae'r cyfranogwyr wedi cytuno i ddod at ei gilydd fel grŵp mwy o faint (os bydd cyfyngiadau yn caniatáu hynny) er mwyn cydweithio ar gysyniadau'r prosiect.

Argymhellion ar gyfer y sector

Dylid ystyried ymrwymo i rai cynlluniau hirdymor ar gyfer cydweithio. Gallai datgan yr Argyfwng Natur fod yn adeg allweddol i'r sector ddod at ei gilydd a chynnig prosiectau beiddgar ac uchelgeisiol a all ateb yr her.

Dylid annog sefydliadau mwy o faint sydd â'r adnoddau i ddatblygu syniadau uchelgeisiol am brosiectau a dylanwadu ar gyllidwyr arwain y ffordd o ran llunio prosiectau a chynnull partneriaethau posibl. Ceir rhai enghreifftiau da o hyn yn digwydd eisoes a dylid adeiladu ar y profiad o ddatblygu cydweithrediadau ar raddfa fawr megis Natur am Byth a sgiliau a phrofiadau'r rhai sy'n cymryd rhan.

Mae angen i sefydliadau llai o faint ystyried sut y gallent ffitio i mewn i bartneriaeth ehangach lle y gall eu gwerth wir gael ei deimlo – y cysyniad o ddod yn “bid candy” er mwyn gwneud consortiwm mwy o faint yn fwy deniadol i gyllidwr oherwydd yr arbenigedd penodol y gallai sefydliad bach ei gynnig i'r bartneriaeth.

Mae hefyd angen gweithio gyda'r cyrff cyllido mwy o faint er mwyn ystyried eu hawydd i wneud ceisiadau am gyllid ar y cyd yn y sector hwn. Mae Fforwm Cyllidwyr Cymru eisoes yn ystyried sut y gall gydweithio â chyllid er mwyn cael mwy o effaith. Mae CNC a Llywodraeth Cymru yn ystyried o ddifrif sut y gallant gyllido a chomisiynu gwaith yn ogystal ag edrych ar y ffordd y maent yn cyllido'r Trydydd sector yn gyffredinol.

Argymhellion i Cyswllt Amgylchedd Cymru

Mae gan Cyswllt Amgylchedd Cymru ac eraill rôl glir i'w chwarae o ran hwyluso cydweithio a cheisio sicrhau'r adnoddau i greu cylchoedd cadarnhaol o weithgarwch datblygu prosiectau. Mae hefyd rôl i frocer y gellir ymddiried ynddo, a all helpu i greu cydberthnasau â'r sector a thu hwnt. Mae A&B Cymru yn cyflawni'r rôl hon yn sector y Celfyddydau ac yn hytrach na

bod yn gystadleuydd am gyllid mae'r sector yn ystyried ei fod yn eiriolwr dros fwy o gyllid a chyllid gwell.

Rhaid i'r gwaith hwn i feithrin cydweithio gael ei ystyried yng nghyd-destun ehangach meithrin y gallu sydd ei angen ar y sector. Mae potensial i Cyswllt Amgylchedd Cymru, gyda rhagor o adnoddau, weithio gyda'i aelodau er mwyn darparu'r cymorth hwn a gwella cydnerthedd y sector. Gallai Cyswllt Amgylchedd Cymru ddatblygu rhaglen gymorth hirdymor gyda chymorth allanol er mwyn helpu i hyrwyddo datblygiad sefydliadol ei holl aelodau yn yr un ffordd ag y mae Catalydd Cymru wedi meithrin gallu a chynyddu adnoddau'r sector Treftadaeth yng Nghymru dros y degawd diwethaf.